

Mae copi o'r Cynllun ar gael yn Saesneg.



Cynllun Cyflawni Blynyddol

2021-2022

DRAFT

Rhagair

Yn ddi-os, rydym yn byw ac yn gweithio mewn cyfnod anodd. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un heriol dros ben ac wrth i ni edrych ymlaen at 2021-22 mae llawer o ansicrwydd o hyd ynghylch yr effeithiau y bydd COVID-19 yn parhau i'w cael.

Rwy'n parhau i fod yn hynod falch o'r gymuned rwy'n ei gwasanaethu a'r Cyngor a'i holl staff. Mae'r feirws hwn wedi cyffwrdd â bob un ohonom mewn rhyw ffordd a bydd ei effaith gyda ni am beth amser i ddod. Fodd bynnag, ar draws y Fro mae cymunedau wedi cyd-dynnu ac mae staff y Cyngor wedi gweithio gyda'i gilydd i addasu a darparu gwasanaethau yn yr amgylchiadau mwyaf heriol

Mae'r Cynllun Cyflawni Blyneddol drafft hwn ar gyfer 2021-22 wedi'i ysgrifennu ar adeg o newid mawr. Y llynedd cyhoeddwyd Cynllun Corfforaethol 2020-25 – Gweithio gyda'n gilydd at ddyfodol disgleiriach. Mae'r Cynllun Cyflawni Blyneddol hwn ar gyfer 2021-22 yn manylu ar y camau y byddwn yn eu cymryd eleni i gyfrannu at gyflawni ein Cynllun Corfforaethol. Mae'r Cynllun Cyflawni Blyneddol yn adlewyrchu sut mae gwasanaethau'n newid, ein strategaeth adfer a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ymateb i'r pandemig. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn uchelgeisiol yn ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni ein hamcanion ac i gyflawni ein gweledigaeth o '**cymunedau cryf gyda dyfodol disglair**'.

Er na fu'n bosibl ymgymryd â'r lefelau ymgysylltu arferol yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i wrando ar ein trigolion a'n partneriaid ac mae'r cynllun wedi'i lunio gan yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym yw'r materion pwysicaf iddynt.

Gwyddom fod pobl yn gwerthfawrogi cael mynediad i barciau a bod yn yr awyr agored, eu bod yn pryderu am yr economi a'u diogelwch ariannol eu hunain, bod pryderon am effaith COVID-19 ar rai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig ac ar y gymuned BAME. Drwy gydol y pandemig mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith i ddeall yr effaith ar yr economi a'r effaith ar y gymuned. Rydym yn cydnabod y bydd y newidiadau dros y flwyddyn ddiwethaf yn cael effaith barhaol arnom i gyd, ond yn enwedig ar les plant a phobl ifanc a'u haddysg. Rydym hefyd yn cydnabod effaith y feirws ar yr henoed ac ar ein cartrefi gofal ac yn gweithio gyda phartneriaid i gadw pobl yn ddiogel.

Mae pedwar Amcan Llesiant y Cyngor yn parhau i fod yn berthnasol i'r gwaith a wnawn a'r hyn yr ydym am ei gyflawni. Mae'r rhan fwyaf o gyllideb y Cyngor yn cael ei wario ar ofal cymdeithasol ac addysg ac mae'r rhain yn parhau i fod yn flaenoriaethau i ni. Mae'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn parhau i fod yn rhaglen flaenllaw yn y Fro, gan sicrhau bod gennym gyfleusterau addysg o'r radd flaenaf, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant a ffurfio elfen allweddol o'n gwaith i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Cynllun Cyflawni Blyneddol hwn yn adlewyrchu cymhlethdod ac ehangder y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor sy'n amrywio o ddiogelu ein trigolion mwyaf agored i niwed, annog datblygiad chwarae a chwaraeon, rheoli gwastraff a chefnogi busnesau lleol yn ogystal â'r buddsoddiad parhaus yn ein hysgolion ac yn nyfodol ein plant.

Mae llawer wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd, ond rydym wedi ymateb yn hyderus a thrwy roi diogelwch a lles ein trigolion yn gyntaf bob amser. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gymunedau'r Fro.



Neil Moore
Arweinydd y Cyngor

DRAFT

Cyflwyniad i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol

Dyma'r ail Gynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2020-2025 y Cyngor, **Gweithio gyda'n Gilydd am Ddyfodol Disgleiriach**. Mae'r ymrwymadau a wnawn yn ein Cynllun Corfforaethol yn rhai tymor hir, felly er mwyn darparu canolbwynt a dangos cynnydd, byddwn yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni mewn CCB bob blwyddyn. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn 2021-22.

Bydd y camau y byddwn yn eu cymryd dros y flwyddyn i ddod yn cyfrannu at gyflawni ein pedwar amcan llesiant a'n gweledigaeth o Gymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair. Mae ein cynlluniau wedi'u llywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gallwch ddarllen rhagor am hyn yn y [Cynllun Corfforaethol](#). Mae'r amcanion hefyd yn darparu'r fframwaith i ddangos sut y byddwn yn sicrhau gwelliant parhaus ac yn adrodd ar ein cynnydd fel sy'n ofynnol gan y Mesur Llywodraeth Leol.

Ein pedwar amcan lles (gwelliant) yw:

- Gweithio gyda a thros ein cymunedau
- Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
- Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Mae'r amcanion hyn wedi'u hadolygu ac o ran pandemig COVID-19 maent yn parhau i fod yr un mor bwysig ag erioed:

- Bod angen i ni fod yn wydn, yn arloesol ac yn ymatebol i anghenion ein cwsmeriaid. Ni allwn fod yn sefydliad sy'n aros yn ei unfan. Mae'r hyn a wnawn i gyflawni ein hamcan i **weithio gyda a thros ein cymunedau** yn adlewyrchu pwysigrwydd cynnwys, cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol i ddeall ac ymateb i anghenion amrywiol y gymuned. Mae'r cyfyngiadau presennol a'r angen am ymbellhau cymdeithasol wedi newid y ffordd rydym yn ymgysylltu ac er y gallwn gyflawni llawer iawn ar-lein rydym hefyd yn ymwybodol y gall hyn eithrio rhai. Mae gwaith yr ydym wedi'i wneud i ddeall effaith COVID-19 hefyd wedi amlygu anghydraddoldebau ac mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd yn golygu y byddwn yn parhau i ymdrechu i ddeall yn well y materion anghydraddoldeb a'r camau gweithredu sydd eu hangen. Wrth ddatblygu'r amcan hwn byddwn yn ystyried anghenion a dyheadau gwahanol sydd gan bobl o bob oedran ac o bob ardal o'r Fro. Rydym yn deall fod angen i ni fod yn gyflogwr cyfrifol i fod yn sefydliad effeithiol, bod ein staff yn un o'n hasedau mwyaf a bod angen cefnogi Cynghorwyr i gynrychioli eu cymunedau.
- Rydym yn cydnabod mai'r ffordd orau allan o dlodi neu anawsterau ariannol i lawer yw drwy gyflogaeth ac y byddwn yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i hyrwyddo twf economaidd i'r ardal. Mae'r gweithgareddau a wneir i gyflawni ein hamcan i **gefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy** yn cydnabod pwysigrwydd rhoi cyfleoedd dysgu a datblygu priodol i bobl o bob oedran. Byddwn yn buddsoddi yn ein

hysgolion, yn blaenoriaethu lles disgyblion ac yn cynorthwyo pobl i gyflawni eu gorau. Mae COVID-19 yn parhau i gael effaith sylweddol ar yr economi a byddwn yn parhau i gefnogi busnesau lleol yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod cyngor a chymorth ar gael ac yn hawdd cael gafael arnynt.

- Mae ein hamcan *cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned* yn cydnabod bod angen i bobl deimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn y cyngor, gofal a chymorth y gallant eu cael, yn ôl yr angen. I lawer ohonom a'n teuluoedd, efallai fod hyn yn bwysicach nawr nag erioed o'r blaen. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd atal ac ymyrraeth gynnar i wella a chynnal lles ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran iechyd. Byddwn yn adeiladu ar y trefniadau partneriaeth cryf sydd ar gael ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a hefyd yn cydnabod rôl hanfodol tai o ran lles pobl. Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo dewisiadau actif ac iechyd drwy weithgareddau hamdden a diwylliannol ac i annog pobl i ystyried sut mae eu dewisiadau trafndiaeth yn effeithio ar eu hiechyd a'r amgylchedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid mewn ymateb i bandemig COVID-19 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl a'u cadw'n ddiogel. Rydym hefyd wedi cydnabod bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar les meddyliol a chorfforol pobl. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i roi cymorth i bobl o bob oed gan gydnabod yr anawsterau y mae pobl o bob oed wedi'u profi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae'r ffordd rydym yn byw ein bywydau ac yn darparu gwasanaethau'n effeithio ar yr amgylchedd ac mae'n bwysig cydweithio ***i barchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd***. Mae'r amgylchedd yn un o'n hasedau pwysicaf ac mae dyletswydd arnom i'w ddiogelu a'i wella i genedlaethau'r dyfodol. Efallai fod mynediad i barciau a mannau gwyrdd yn lleol hyd yn oed yn bwysicach nawr nag erioed ac mae cysylltiad anorfod rhwng iechyd a lles a'r amgylchedd. Credwn hefyd ei fod yn bwysig i fwynhau'r ardal rydym yn byw ynddi a gwneud yn fawr o fyw a gweithio mewn ardal mor brydferth â'r Fro. Byddwn yn gweithredu i leihau ein heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac i ddylanwadu ar eraill i'n dilyn ac ystyried sut y gallai'r hyn a wnânt effeithio ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Byddwn yn annog trigolion, ymwelwyr a busnesau i leihau gwastraff, allyriadau carbon ac i ystyried sut y maen nhw'n cyfrannu at lygredd. Rydym am i bobl allu mwynhau ein parciau, ein trefi, ein cefn gwlad a'n hardaloedd arfordirol yn ddiogel a pharchu'r ardal leol, ei thrigolion a'i hymwelwyr.

Mae'r camau gweithredu a nodir yn y CCB eleni wedi'u datblygu mewn ymgynghoriad â thrigolion, partneriaid, aelodau etholedig a staff. Mae'r camau gweithredu yn adlewyrchu ein strategaeth adfer, y canfyddiadau a ddaeth gan ein rheoleiddwyr, y wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol (2019/20), perfformiad y Cyngor yn y cyd-destun cenedlaethol,

canlyniadau o ymgynghoriadau ac [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#) a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda chyrrff cyhoeddus a thrydydd sector eraill fel rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae amcanion lles y Cyngor wedi'u datblygu i gyd-fynd ag amcanion lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd y camau gweithredu a nodir yn y CCB hwn yn cyfrannu at eu cyflawni.

Rydym yn parhau i wreiddio'r pum ffordd o weithio ym mhob peth a wnawn ac maent yn parhau'n rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r CCB. Rydym yn hyderus y bydd y camau gweithredu a nodwn nid yn unig yn cyfrannu at gyflawni ein hamcanion lles ond y byddant hefyd yn cyfrannu at y nodau lles cenedlaethol ac yn adlewyrchu ein rôl yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae'r CCB yn darparu ar gyfer pob un o'n hamcanion lles, yr ymrwymadau a wnawn yn y Cynllun Corfforaethol a'r camau y byddwn yn eu cymryd yn 2021-22 i weithio tuag at sicrhau cymunedau cryf â Dyfodol Disglair. Bob blwyddyn wrth i ni ddrafftio ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod rydym wedi arfer cydbwysu'r gwaith y mae'n rhaid i ni ei wneud, y gwelliannau a'r datblygiadau arloesol rydym am eu datblygu yng nghyd-destun ansicrwydd ynghylch cyllid, newidiadau deddfwriaethol, polisi a gwleidyddol a materion fel Brexit a'r argyfwng hinsawdd. Fodd bynnag, mae datblygu'r cynllun ar gyfer 2021-22 wedi bod hyd yn oed yn fwy heriol wrth i ni barhau i ymateb i'r pandemig, cynllunio ein hadferiad ac ystyried y ffordd orau o ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ein trigolion.

Mae'r tudalennau canlynol yn nodi'r camau rydym am eu cymryd dros y deuddeg mis nesaf i gyflawni ein hamcanion. Nid yw'r amcanion a'r camau gweithredu yn nhrefn pwysigrwydd na chyflawni ac rydym yn ymwybodol y gall fod angen i ni atal neu ohirio gweithgareddau er mwyn ymateb i heriau brys. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol ac yn hyderus yn ein gallu i ymateb, adfer a chymryd cryfder o'r heriau sy'n ein hwynebu.

AMCAN UN:

Gweithio Gyda a Thros Ein Cymunedau

Rydym yn gyngor modern a blaengar sy'n croesawu arloesi ac yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni anghenion ein trigolion a chymunedau lleol. Rydym yn ymrwymedig i fodloni anghenion y genhedlaeth hon ac i adael etifeddiaeth gadarnhaol i genedlaethau'r dyfodol.

Ymrwymadau ein Cynllun Corfforaethol yw:

- Gwella sut y byddwn yn cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu ag eraill am ein gwaith a'n penderfyniadau.
- Gweithio'n arloesol gan ddefnyddio technoleg, adnoddau a'n hasedau i drawsnewid ein gwasanaethau fel eu bod yn gynaliadwy i'r dyfodol.
- Datblygu ein diwylliant cryf o wasanaeth cwsmeriaid da wedi'i alinio i werthoedd y Cyngor o fod yn uchelgeisiol, agored, ynghyd a balch.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal a gweithio gyda'r gymuned i sicrhau ein bod yn ymatebol i anghenion amrywiol cwsmeriaid.
- Hyrwyddo'r Gymraeg a chyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwr Cymraeg erbyn 2050.
- Cefnogi datblygiad a lles ein staff a chydabod eu cyfraniad at waith y Cyngor.
- Sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu a chraffu ar waith a chefnogi ein haelodau etholedig i gyflawni eu rolau.

Yn 2021-22 byddwn yn:

1. Gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg i wella'r ffordd rydym yn darparu gwybodaeth ac yn cyfathrebu â phobl.
2. Cynnwys, ymgysylltu ac ymgynghori â'n trigolion a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys y sector gwirfoddol a chynghorau tref a chymuned wrth ailgynllunio gwasanaethau, gan sicrhau bod y rhai nad ydynt yn cael eu clywed yn aml yn cael y cyfle i gymryd rhan.
3. Archwilio dulliau gwahanol a mwy arloesol o ymgymryd â busnes y Cyngor gan gynnwys gweithgareddau craffu ac opsiynau ar gyfer mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd.
4. Defnyddio ein heiddo a'n hasedau tir i gefnogi newidiadau yn y gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys gweithio ystwyth, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a sicrhau arbedion ariannol.
5. Ystyried yr argymhellion yn adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 i sicrhau bod ein gweithgareddau caffael yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol ac yn cefnogi gwaith sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd.
6. Cyflawni gwelliannau i seilwaith TGCh mewn ysgolion yn unol ag agenda Addysg Ddigidol Llywodraeth Cymru a chefnogi ffyrdd newydd o weithio sy'n deillio o COVID-19.
7. Datblygu mwy o wasanaethau ar-lein a gwella ymatebolrwydd y gwasanaethau gan gynnwys defnyddio technoleg gynorthwyol.
8. Monitro a mynd i'r afael â'r effaith ariannol y bydd y coronafeirws yn parhau i'w chael ar gyllid y Cyngor.

9. Datblygu iteriad nesaf o Raglen Newid Trawsnewidiol y Cyngor i ymateb i heriau sefydliadol y presennol a'r dyfodol.
10. Gweithio gyda'n partneriaid ac ymgysylltu â'n dinasyddion i ymateb i effaith Brexit er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau a'n cymunedau yn cael eu paratoi'n effeithiol ar gyfer newid.
11. Datblygu rôl gwasanaethau allgymorth i gefnogi cynnwys plant a phobl ifanc ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl ymhellach ym mhob lleoliad addysgol, gan gynnwys gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu ystod o wasanaethau i gefnogi dysgwyr sydd â'r anghenion ychwanegol hyn.
12. Darparu gwasanaethau ieuencid lleol i bobl ifanc 11-25 oed sy'n cefnogi eu lles ac yn darparu amrywiaeth o raglenni a gweithgareddau i ddiwallu anghenion amrywiol gan gynnwys y Gymraeg a chymorth i'r rhai sy'n fwy agored i niwed neu ar ymylon cymdeithas.
13. Cyflawni blwyddyn dau Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor gan gynnwys adolygiad o'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb a newidiadau sy'n deillio o'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd, gan ymateb i anghenion cymunedol sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i COVID-19 a'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys.
14. Adolygu arferion recriwtio i gynyddu amrywiaeth o fewn gweithlu'r Cyngor.
15. Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau statws o blaid pobl hŷn i'r Fro a chymryd camau i fod yn well i blant ac i ddeall demensia yn well.
16. Harneisio pŵer gwirfoddoli a gweithio gyda phartneriaid a grwpiau cymunedol y trydydd sector i adeiladu etifeddiaeth ar gyfer Arwyr y Fro.
17. Cyflwyno polisi gwirfoddoli staff.
18. Hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog.
19. Gwella a hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg a chynyddu sgiliau Cymraeg staff y Cyngor, gan ganolbwyntio'n benodol ar Wasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r fframwaith Mwy Na Geiriau.
20. Rhoi Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg ar waith.
21. Gweithredu strategaeth Adnoddau Dynol newydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar amrywiaeth a lles staff, gan gynorthwyo staff i weithio gartref ac mewn gwahanol ffyrdd.
22. Gweithredu Rhaglen Datblygu Gweithwyr newydd.
23. Ymateb i'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), gan gynnwys trefniadau monitro perfformiad newydd i gefnogi'r Cynllun Corfforaethol.
24. Cryfhau dull y Cyngor o lywodraethu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod ein systemau yn gadarn, yn addas i'r diben ac yn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol presennol.

AMCAN DAU

Ategu Dysgu, Cyflogaeth a Thwf Economaidd Cynaliadwy

Rydym yn Gyngor sy'n deall pwysigrwydd poblogaeth addysgedig a medrus gan helpu pobl o bob oedran i ddatblygu a dysgu. Rydym yn ymrwymedig i annog dyheadau pobl a sicrhau bod unigolion a chymunedau'n gallu ffynnu a chyflawni eu gorau.

Ymrwymadau ein Cynllun Corfforaethol yw:

- Sicrhau bod mynediad priodol at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, meithrin ac addysg o safon gan alluogi pobl i gyflawni eu canlyniadau gorau posibl beth bynnag fo'u hoedran.
- Buddsoddi yn ein hysgolion i roi'r amgylchedd dysgu cywir i'r 21ain ganrif a chyfleusterau sydd o fudd i'r gymuned ehangach.
- Gweithio gydag ysgolion, teuluoedd ac eraill i wella'r gwasanaethau a'r cymorth i bobl ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Gweithio gydag addysg, darparwyr hyfforddiant, busnesau ac asiantaethau eraill i roi ystod o gyngor, cymorth a chyfleoedd hyfforddiant sy'n gwella sgiliau pobl a'u parodrwydd at waith.
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y gall pobl ddefnyddio cyngor, gwybodaeth a chymorth dyledion ariannol sy'n ymwneud â thai, budd-daliadau, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
- Cefnogi a hyrwyddo gwirfoddoli a dysgu cymunedol sy'n cydnabod ystod y buddion i unigolion a'r gymuned.
- Gweithio fel rhan o Brifddinas Ranbarth Caerdyddi ddatblygu cynllunio strategol a mentrau trafniadaeth a hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a chyflogaeth.
- Ategu twf economaidd drwy adfywio, seilwaith gwell a chymorth i ganol trefi, twristiaeth a diwydiant.

Yn 2021-22 byddwn yn:

1. Gweithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i baratoi ein hysgolion ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm addysg newydd yn 2022.
2. Gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion sy'n codi o effaith mesurau COVID-19 ar ysgolion, sicrhau parhad dysgu a bod anghenion penodol dysgwyr sy'n agored i niwed yn cael sylw.
3. Yn barod ar gyfer diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), darparu hyfforddiant i staff ysgolion i hwyluso'r gwaith o gyflwyno cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a Chynlluniau Datblygu Unigol mewn amrywiaeth o leoliadau addysgol.
4. Cyflawni gwelliannau i'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif (Band B) gan gynnwys ehangu Ysgol y Deri, adeiladau ysgol newydd ar gyfer Sant Baruc, Llancarfan, Dewi Sant, Sain Nicolas, Bro Morgannwg, ysgolion Pencoedtre a Whitmore, ehangu capasiti ysgolion cynradd yn y Bont-faen a datblygu Canolfan Dysgu a Lles a chanolfannau adnoddau ADY arbenigol yn Whitmore a Gladstone.
5. Adolygu'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) ar gyfer Bro Morgannwg er mwyn sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl yn ein hysgolion.
6. Ehangu Cynllun Prentisiaeth y Cyngor i greu nifer ac ystod fwy o gyfleoedd ac ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cynllun Kick Start.
7. Gweithio gydag eraill gan gynnwys busnesau allweddol i gefnogi cyflogaeth a datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol gan gynnwys cyflwyno mentrau ar gyfer pobl ifanc fel Ysbrydoli i Weithio ac Ysbrydoli i Gyflawni.

8. Gwella sgiliau pobl a'u parodrwydd i weithio drwy gyfleoedd buddsoddi cymunedol gan gynnwys rhaglen adeiladu tai'r Cyngor, y Cynllun Cefnogi Pobl a chyfleoedd hyfforddiant a gwaith y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.
9. Yn barod ar gyfer diwygio ADY, cydweithio â darparwyr addysg bellach a hyfforddiant i ddatblygu a hyrwyddo cyfleoedd addysg a hyfforddiant i bobl ifanc 16-25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
10. Sefydlu siop un stop i roi cyngor am arian, gwybodaeth a chymorth dyledion i breswylwyr ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys Tai, Budd-daliadau, cyflogaeth a hyfforddiant.
11. Gweithio ar draws y Cyngor a chyda phartneriaid i gefnogi preswylwyr wrth i'r newidiadau i'r system les gael eu cyflwyno.
12. Archwilio cyfleoedd ar gyfer gwelliannau trafndiaeth, cynllunio ac adfywio ledled Bro Morgannwg ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.
13. Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynlluniau ar gyfer cyfnewidfa drafnidiaeth ar gyfer y Barri.
14. Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Llywodraeth Cymru a thirfeddianwyr i ddatblygu cysylltiadau trafndiaeth gynaliadwy â'r maes awyr gan gynnwys cysylltiadau beicio, bysus a rheilffyrdd.
15. Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru i gefnogi adferiad ac yn y pen draw twf yr Ardal Fenter yn Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd.
16. Darparu Cynllun Adfer a Thwf Economaidd ar gyfer y Fro a chefnogi busnesau lleol i fasnachu mewn modd diogel, amgylcheddol gynaliadwy ac ariannol hyfyw.
17. Cefnogi caffael o fusnesau lleol a sbarduno gwariant lleol, a hynny yn ei dro yn creu cadwyni cyflenwi cryfach ac yn moderneiddio'r economi leol i gefnogi busnesau a chymunedau.
18. Cefnogi ein canol trefi i wella ac addasu yn dilyn effeithiau COVID-19, drwy wella manau gwyrdd ac ardaloedd cyhoeddus a chefnogi datblygiad cymysgedd o adeiladau busnes a chartrefi o fewn lleoliadau canol trefi, gan hyrwyddo dull gweithredu cyntaf yng nghanol y dref.
19. Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi adferiad ac adfywiad y Barri, Glannau'r Barri a chwblhau'r Ardal Arloesi gan sicrhau amrywiaeth o gyfleusterau busnes ac addysg.
20. Gweithredu rhaglen arwyneb ffordd a phalmentydd ar gyfer 2021/2022.
21. Adolygu'r Rhaglen Gyfalaf a'r defnydd a wneir o asedau'r Cyngor i gefnogi adferiad a thwf economaidd gan gynnwys ystyried strategaeth fuddsoddi.

AMCAN TRI:

Cynorthwyo Pobl Gartref Ac Yn Eu Cymuned

Rydym yn Gyngor rhagweithiol sy'n gweithio mewn partneriaeth i wneud y mwyaf o les corfforol a meddwl pobl i sicrhau eu bod yn ddiogel gartref ac yn y gymuned ac y gallant wneud dewisiadau sy'n cefnogi eu lles cyffredinol. Rydym yn Gyngor sy'n sicrhau y caiff pobl y cyngor, gofal a chymorth angenrheidiol yn ôl yr angen.

Ymrwymadau ein Cynllun Corfforaethol yw:

- Annog a chefnogi pobl o bob oedran i gael ffyrdd o fyw actif ac iach i wella a chynnal eu lles corfforol a meddyliol.
- Rhoi mwy o gyfleoedd beicio a cherdded bob dydd a gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu ystod o opsiynau teithio i annog pobl allan o'u ceir.
- Hyrwyddo hamdden, celf a gweithgareddau diwylliannol sy'n bodloni ystod eang o anghenion.
- Gweithio mewn partneriaeth i roi mwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor.
- Rhoi gofal a chymorth i blant a theuluoedd mewn angen sy'n adlewyrchu eu cryfderau a'u hamgylchiadau unigol.
- Rhoi gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y person i oedolion mewn angen.
- Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau cymorth lles iechyd meddwl ac emosiynol amserol a phriodol.
- Cyflawni ei dyletswyddau diogelu i ddiogelu pobl rhag niwed.
- Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cymunedau cydlynol a hyrwyddo diogelwch cymunedol.
- Cadw pobl yn ddiogel drwy gynllunio argyfwng cadarn a gwydn a gwasanaethau rheoliadol sy'n diogelu'r cyhoedd, defnyddwyr a busnesau.
- Cynyddu cyflenwad tai hygyrch a fforddiadwy o safon uchel drwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r angen am dai.
- Rhoi cyngor a chymorth ar dai i atal digartrefedd.

Yn 2021-22 byddwn yn:

1. Gweithio mewn partneriaeth i ymateb i bandemig COVID-19 gan gynnwys darparu'r gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (POD), cefnogi rhaglen o frechu torfol a chefnogi ein cartrefi gofal, ysgolion a phreswylwyr sy'n agored i niwed.
2. Gweinyddu'r gofynion a nodir yng nghynllun ymateb cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd ar gyfer y coronafeirws, gan gynnwys gorfodi'r rheoliadau sydd ar waith ar unrhyw adeg benodol, cefnogi partneriaid i reoli achosion ac arwain ar bob mater sy'n ymwneud â rheoli clefydau trosglwyddadwy.
3. Datblygu'r ystod o weithgareddau corfforol sydd ar gael i ddinasyddion yn ein parciau gwledig, manau gwyrdd cymunedol, yr arfordir treftadaeth ac ysgolion ac annog pobl i ymarfer yn yr awyr agored.
4. Gweithio mewn partneriaeth i hwyluso a hyrwyddo cyfleoedd cynhwysol ar gyfer chwarae a datblygu chwaraeon gan ganolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gweithio gyda grwpiau/mewn ardaloedd â chyfraddau cyfranogiad isel.
5. Gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i weithredu'r Cynllun Symud yn Fwy a Bwyta'n Well gan ganolbwyntio ar leoliadau gwaith ac ysgolion.
6. Gweithredu'r Strategaeth Cyfoethogi Cymunedau i wella ansawdd bywyd a lles ein tenantiaid drwy ddatblygu un porth ar gyfer cyngor a chymorth cyflogadwyedd, ehangu bancio amser ac adolygu cymalau Gwerth Cymdeithasol.

7. Annog a chefnogi newidiadau cynaliadwy i batrymau teithio pobl a chynyddu seilwaith cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus diogel mewn ardaloedd sy'n bodoli eisoes a datblygiadau tai newydd.
8. Darparu'r rhaglen nextbike ym Mhenarth ac archwilio'r potensial i ehangu'r Cynllun i Sili a'r Barri fel rhan o hyrwyddo teithio llesol ac adolygiad o'r Llwybrau Teithio Llesol presennol.
9. Gweithio ar sail fwy rhanbarthol drwy'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol (ATRh) i ddatblygu cynlluniau trafndiaeth ymhellach sydd â dimensiwn rhanbarthol.
10. Adolygu'r cymorth a roddir i wasanaeth Trafnidiaeth Gymunedol Greenlinks i gludo teithwyr o amgylch y Fro gan geisio darparu gwasanaeth sy'n cyfateb yn well i alw cwsmeriaid.
11. Datblygu amrywiaeth o ddigwyddiadau ysbrydoledig a chreadigol priodol ar gyfer y rhaglen digwyddiadau 21/22 drwy weithio mewn partneriaeth â darparwyr yn unol ag argymhellion Tasglu Digwyddiadau Llywodraeth Cymru.
12. Ymateb i ganlyniad yr ymgynghoriad ar Strategaeth Gelfyddydol y Cyngor.
13. Treialu prosiect Makerspace ym Mhenarth a nodi cyfleoedd pellach i ehangu'r defnydd o fannau creadigol lleol mewn cymunedau ledled y Fro.
14. Cydweithio â phartneriaid i hyrwyddo ein hysgolion a'n llyfrgelloedd fel canolfannau cymunedol a lles a chynyddu amrywiaeth y cyfleoedd dysgu hamdden, celfyddydol a diwylliannol sydd ar gael gan gynnwys cyfleoedd digidol.
15. Gweithredu dull cynaliadwy o ddiwallu anghenion pobl hŷn mewn llety gyda gofal i gefnogi mwy o annibyniaeth.
16. Cytuno ar gontract cartref gofal rhanbarthol gyda'r Bwrdd Iechyd a darparwyr i wella canlyniadau i oedolion sydd angen gofal a chymorth.
17. Cefnogi gwasanaethau integredig a weithredir ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd Lleol fel rhan o'r agenda 'Cymru Iachach'.
18. Datblygu modelau gofal mwy integredig sy'n darparu mwy o ddewis ac yn lleihau dibyniaeth.
19. Gweithredu strategaeth ranbarthol sy'n cefnogi gofalwyr ac yn cydnabod eu cyfraniad.
20. Chwilio am gyfleoedd pellach drwy'r Grant Plant a Chymunedau a'r Grant Cymorth Tai i dargedu ymyriadau ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd gan sicrhau bod gwasanaethau'n addasu mewn ymateb i faterion sy'n codi o COVID-19.
21. Gweithio gyda phartneriaid i weithredu ffordd newydd o weithio gyda phlant a'u teuluoedd sy'n manteisio i'r eithaf ar eu cryfderau i wella canlyniadau a gwella eu lles.
22. Cynyddu nifer y gofalwyr maeth drwy recriwtio a chadw gwell er mwyn gwella sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc mae angen gofal a chymorth arnynt.

23. Datblygu model newydd ar gyfer cydweithio â'r Bwrdd Iechyd gan ganolbwyntio'n benodol ar ofal hirdymor cynaliadwy a gwasanaethau aseswyr nyrsio.
24. Cefnogi preswylwyr y mae'r coronafeirws wedi effeithio'n negyddol ar eu hiechyd corfforol neu feddyliol.
25. Gweithio gydag ysgolion i weithredu dulliau sy'n ymwybodol o drawma i ddiwallu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion.
26. Datblygu gwasanaethau allgymorth ymhellach ar gyfer ysgolion meithrin a chynradd i gefnogi disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl a datblygu Canolfan Dysgu a Lles newydd.
27. Gweithio gyda phobl i fynd i'r afael â materion sy'n codi o atal gwasanaethau ataliol, ymyrraeth gynnar a chymorth dros dro drwy ailgychwyn neu sefydlu modelau gwasanaeth newydd yn ddiogel..
28. Gweithio gyda llyfrgelloedd cymunedol i sicrhau statws Deall Demensia ar gyfer ein holl lyfrgelloedd cyhoeddus.
29. Gweithio mewn partneriaeth i amddiffyn dinasyddion sy'n agored i niwed rhag effeithiau andwyol masnachu twyllodrus, sgamiau, sylweddau a chynhyrchion niweidiol, caethwasiaeth a cham-fanteisio.
30. Gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru a gweithio mewn partneriaeth i sefydlu dull cyson o ddiogelu ein dinasyddion.
31. Gweithredu'r Cynllun Gwaith Diogelu Corfforaethol .
32. Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i fynd i'r afael â materion cydlyniant cymdeithasol a Gweithredu Strategaeth Diogelwch Cymunedol Bro Morgannwg a'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol.
33. Gweithio gyda phartneriaid i weithredu Cynllun Adfer y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i wella canlyniadau pobl ifanc.
34. Cyflwyno ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd a rhaglen o arolygiadau i sicrhau bod manwerthwyr yn cydymffurfio â'r Rheolaethau Isafbris Uned (MUP) ar gyfer alcohol a ddaw i rym yng ngwanwyn 2020.
35. Cwblhau Cam 1 Holm View a dechrau datblygu dros 100 o Gartrefi Cyngor newydd mewn 5 safle ar draws Bro Morgannwg gan gynnwys y Barri, Penarth a'r Fro wledig.
36. Pennu safle ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.
37. Gweithredu strategaeth Tai Lleol pum mlynedd i fynd i'r afael â'r angen am dai.
38. Cynyddu'r cyflenwad o dai hygyrch a fforddiadwy o ansawdd da drwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd drwy'r system gynllunio a thrwy weithio mewn partneriaeth â chymdeithasau tai.
39. Gweithio gyda phartneriaid i gynnal y gostyngiad mewn digartrefedd a gyflawnwyd yn ystod yr argyfwng a gweithredu Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai.

AMCAN PEDWAR

Parchu, Gwella A Mwynhau Ein Hamgylchedd

Rydym yn Gyngor sy'n pennu safonau uchelgeisiol i'n hunain, ein partneriaid a'n cymunedau. Rydym yn deall sut mae ein hamgylchedd yn cyfrannu at les unigol, cymunedol a byd-eang. Rydym yn ymrwymedig i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd i sicrhau y gallwn fod yn falch o'r etifeddiaeth a adewn i genedlaethau'r dyfodol.

Ymrwymadau ein Cynllun Corfforaethol yw:

- **Gweithio i leihau allyriadau carbon y sefydliad i sero net cyn 2030 ac annog eraill i'n dilyn fel rhan o'r gwaith o leihau'r effaith negyddol y caiff ein gweithgareddau ar yr amgylchedd.**
- **Gweithio gyda ac ymrymuso grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill i gynnal cyfleusterau lleol gan gynnwys tai bach cyhoeddus, llyfrgelloedd, parciau, ardaloedd chwarae a chanolfannau cymunedol**
- **Diogelu, cadw a, lle bo'n bosibl, gwella ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a threftadaeth ddiwylliannol .**
- **Gweithio gyda'r gymuned a phartneriaid i sicrhau bod yr amgylchedd lleol yn lân, deniadol ac yn cael ei reoli'n dda.**
- **Gweithio gyda'r gymuned, datblygwyr ac eraill i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gynaliadwy a bod datblygwyr yn lliniaru ar eu heffeithiau, integreiddio â chymunedau lleol ac yn darparu'r seilwaith angenrheidiol.**
- **Rhoi gwasanaethau rheoli gwastraff effeithiol a gweithio gyda'n trigolion, partneriaid a busnesau i leihau gwastraff a'i effaith ar yr amgylchedd.**
- **Lleihau llygredd gan gydnabod yr effaith andwyol y gallai ei gael ar yr amgylchedd a lles pobl.**
- **Gweithio i leihau effaith erydu, llifogydd a llygredd ar ein hardaloedd arfordirol a chyrsgiau dŵr.**

Yn 2020-21 byddwn yn:

1. **Gweithio gyda'n partneriaid i gymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a gweithredu ein Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd.**
2. **Datblygu fflyd sy'n fwy cynaliadwy yn amgylcheddol gan gynnwys defnyddio cerbydau trydan a hybrid.**
3. **Gwella adeiladau presennol yn ysgolion Dewi Sant, Llancarfan a Sain Nicolas gan eu gwneud yn adeiladau carbon-isel a di-garbon i'w gweithredu lle bo hynny'n bosibl.**
4. **Gweithio gyda'r diwydiant adeiladu i ddatblygu cynllun ysgol hyblyg y gellir ei addasu o ran maint sy'n un carbon sero-net o ganlyniad i'r deunyddiau a ddefnyddir a'r carbon ymgorfforedig y maent yn ei gynnwys.**
5. **Creu cartrefi Cyngor newydd sydd bron yn ddi-garbon, neu sydd o leiaf â sgôr A a defnyddio Rhaglenni Ôl-ffitio wedi'u Hoptimeiddio sy'n cynnwys Dulliau Modern o Adeiladu a gweithgynhyrchu oddi ar y safle i gyrraedd targedau lleihau carbon ar gyfer stoc dai bresennol y Cyngor.**
6. **Cwblhau'r rhaglen Ailosod Goleuadau Stryd LED.**
7. **Defnyddio'r Gronfa Cymunedau Cryf i gefnogi prosiectau cymunedol gan ganolbwyntio ar adferiad a gwydnwch yn y gymuned.**
8. **Datblygu "Cynllun Pantri Lleol" i leihau tlodi bwyd a datblygu Canolfan Addysg a Thŷ Gwydr Poteli Plastig ym mhroject gardd Margaret Avenue.**

9. Adolygu a gweithredu opsiynau i sefydliadau eraill weithredu cyfleusterau fel meysydd chwaraeon, parciau, mannau agored, rhandiroedd a chyfleusterau cyhoeddus.
10. Buddsoddi mewn addysg, trafndiaeth gynaliadwy a chyfleusterau cymunedol o ganlyniad i drafod taliadau Adran 106 gan ddatblygwyr gan gynnwys ysgolion cynradd yn Nhregolwyn, Llancafarn, Sain Nicolas a Glannau'r Barri a gwell cyfleusterau ym Mharc Belle Vue, Parc Dingle, Murchfield a Phentref y Rhws.
11. Gweithredu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a fydd yn canolbwyntio ar y cyfleoedd ym Mro Morgannwg i hyrwyddo a datblygu mannau gwyrdd, draenio cynaliadwy, llwybrau teithio gwyrdd, ecoleg a choed, gan gynnwys cyfeiriad at strategaeth goed ar gyfer ein trefi a'n pentrefi a fydd hefyd yn ymateb i Glefyd Coed Ynn.
12. Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu mannau cyhoeddus diogel a hygyrch gan gydnabod y gwerth a roddir ar y rhain yn ystod cyfyngiadau COVID-19.
13. Gweithredu'r Blaengynllun Bioamrywiaeth gyda phwyslais arbennig ar gynyddu ymwybyddiaeth staff o bwysigrwydd sefydlu bioamrywiaeth drwy gydol gwaith y Cyngor.
14. Sefydlu Partneriaeth Natur Leol i gydweithio i wella'r amgylchedd naturiol lleol.
15. Gweithio gyda'r gymuned a'n partneriaid i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau i wella Ansawdd Amgylcheddol Lleol (AALI) gan gynnwys atal sbwriel a chodi ymwybyddiaeth.
16. Cyflawni amrywiaeth o welliannau i reoli gwastraff gan gynnwys cwblhau Gorsaf Drosglwyddo Gwastraff y Barri a datblygu Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yng Ngorllewin y Fro.
17. Cyflwyno trefniadau ailgylchu newydd ym Mhenarth i gwblhau'r gwaith o gyflwyno'r system ailgylchu ar wahân ar gyfer y Fro.
18. Gweithio gyda'n cymunedau i adfywio ac ailffocysu ein hymrwymiad i leihau, aildddefnyddio ac ailgylchu.
19. Adolygu'r Polisi Gorfodi a'r blaenoriaethau ar gyfer y Tîm Gorfodi gan gynnwys Gorfodi Parcio Sifil, gorfodi amgylcheddol a defnyddio car camera.
20. Gweithredu amrywiaeth o orchmynion rheoleiddio parcio, trefniadau parcio i breswylwyr a systemau rheoli parcio diwygiedig ym Mhenarth (Cosmeston), Aberogwr, Ynys y Barri a'r Bont-faen i fynd i'r afael â diogelwch ar y ffyrdd a phryderon amgylcheddol.
21. Gweithredu'r Cynllun Rheoli Traethlin gan gynnwys monitro arfordiroedd a diwygio'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd.

Cyflawni a Monitro'r Cynllun

Adlewyrchir camau gweithredu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yng nghynlluniau gwasanaeth y cyngor sy'n dangos sut y bydd pob adran o'r Cyngor yn gweithio i gyfrannu at ein hamcanion lles. Mae targedau wedi'u pennu ar gyfer cyflawni'r camau hyn.

Caiff gwaith y Cyngor ar y Cynllun Corfforaethol ei fonitro'n rheolaidd drwy asesu cynnydd yn erbyn ein gweithredoedd a'n dangosyddion perfformiad er mwyn galluogi cynghorwyr i graffu ar gynnydd a'i oruchwyllo. Adroddir ar hyn i'n pwyllgorau craffu a'n Cabinet bob chwarter. Defnyddir Cynlluniau Gwasanaeth hefyd i ddatblygu Cynlluniau Tîm ac i lywio ein gwerthusiadau staff drwy'r broses #amdanafi.

Rydym yn cyhoeddi'r holl wybodaeth am ein cynllun Corfforaethol, Cynllun Cyflawni Blynyddol ac adroddiadau perfformiad eraill ar ein gwef www.valeofglamorgan.gov.uk/cy. Mae gwybodaeth hefyd ar gael yn ein swyddfeydd a'n llyfrgelloedd.

DRAFT

Cymryd Rhan

Mae llawer o ffyrdd o ddylanwadu ar y broses gwneud penderfyniadau yn y Cyngor. Gallwch gymryd rhan trwy ymuno â'n panel dinasyddion , [Barn Bro Morgannwg](#), a chymryd rhan yn ein hymgyngoriadau ar ein gwaith a gwaith ein partneriaid.

Mae ein pwyllgorau craffu ar agor i'r cyhoedd ac maent yn rhoi cyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyngor. Gallwch wneud cais i Bwyllgor ystyried gwasanaeth neu fater drwy gwblhau [ffurflen](#). Gallwch hefyd gofrestru i siarad mewn pwyllgor craffu drwy ddilyn y wybodaeth ar [wefan](#) y Cyngor. Mae rhagor o wybodaeth am Bwyllgorau Craffu'r Cyngor a sut y gallwch gymryd rhan ar gael [yma](#).

Rydym yn croesawu adborth am ein gwaith a gallwch gysylltu â ni:

improvements@valeofglamorgan.gov.uk

Polisi a Gwasanaeth Trawsnewid Busnes, Cyngor Bro Morgannwg, y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri. CF63 4RU.

01446 700111